# Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020

**2020 dsc 1**

## RHAN 4

CORFF LLAIS Y DINESYDD AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

*Mynediad i fangreoedd gan Gorff Llais y Dinesydd: dyletswydd i roi sylw i god ymarfer*

### 19 Cod ymarfer ar fynediad i fangreoedd

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod ymarfer ynghylch—

(a) ceisiadau a wneir gan Gorff Llais y Dinesydd i gael mynediad i fangreoedd at ddiben ceisio barn unigolion mewn cysylltiad â gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol, a

(b) pan fo mynediad i'r mangreoedd hynny wedi ei gytuno, ymgysylltu ag unigolion yn y mangreoedd hynny at y diben hwnnw.

(2) Ystyr "mangreoedd" yn is-adran (1) yw unrhyw fangreoedd y darperir gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol ynddynt.

(3) Rhaid i Gorff Llais y Dinesydd roi sylw i'r cod.

(4) Rhaid i bob awdurdod lleol a chorff GIG roi sylw i'r cod (i'r graddau y mae'r cod yn berthnasol) wrth arfer unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau iechyd neu wasanaethau cymdeithasol.

(5) Wrth lunio'r cod rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag—

(a) Corff Llais y Dinesydd;

(b) pob awdurdod lleol;

(c) pob corff GIG;

(d) unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 19. (See end of Document for details)*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 19 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 29(2)**

**I2** A. 19(1)(2)(5) mewn grym ar 1.4.2022 gan O.S. 2022/208, **ergl. 3(b)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 01/04/2023. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020, Adran 19.